**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

8 Gorffennaf 2022


Annwyl Eluned

Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd: Gwasanaethau endosgopi yng Nghymru

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd adroddiad ar ei ymchwiliad i wasanaethau endosgopi yng Nghymru. Yn ein cyfarfod ar 4 Mai 2022, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol presennol i wneud gwaith dilynol ar yr argymhelliad allweddol a wnaed gan ein Pwyllgor blaenorol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion sy'n codi yn yr atodiad erbyn 1 Medi 2022.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: Argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd fel rhan o'i ymchwiliad i wasanaethau endosgopi yng Nghymru

Cefndir

Cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd adroddiad ar ei ymchwiliad i wasanaethau endosgopi yng Nghymru ym mis Ebrill 2019.

Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, sef: erbyn mis Hydref 2019, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Rhaglen Gwella Endosgopi Genedlaethol i greu a chyhoeddi cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol sy'n mynd i'r afael â'r galw nawr ac yn y dyfodol am wasanaethau sydd ag amserlenni a thargedau clir ar gyfer gwella, i'w oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen Endoscopi Genedlaethol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion isod erbyn 1 Medi 2022.

Y diweddaraf ynghylch yr argymhelliad

1. A allwch chi roi diweddariad ar gynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ar waith, gan gynnwys:

   a. Y sefyllfa bresennol ar gyfer optimeiddio'r rhaglen sgrinio canser y coluddyn (h.y. ar gyfer cynyddu sensitifrwydd FIT a phrofion oedran) a sut mae hyn yn cymharu â rhannau eraill o'r DU.

   b. A yw newidiadau yn y rhaglen hyd yma wedi cynyddu atgyfeiriadau ar gyfer triniaethau endosgopig.

   c. Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer cyflwyno FIT mewn gofal sylfaenol.

   d. Ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig cynyddu nifer y dynion mewn ardaloedd difreintiedig sy'n manteisio ar wasanaethau.

   e. I ba raddau y mae gwaith yn digwydd i fynd i'r afael â materion gweithlu.

      i. gan gynnwys manylion y byrddau iechyd sydd ag achrediad JAG, a'r

      ii. rhesymau pam nad yw rhai unedau endosgopi yng Nghymru wedi cael yr achrediad o hyd.

   f. Diweddariad ar seilwaith a chyfleusterau gwasanaethau endosgopi.

Materion eraill

2. Amlinellwch yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar gyflawni'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ac unrhyw oblygiadau y mae hyn wedi'u cael ar ganlyniadau i gleifion.

3. I ba raddau y mae gwasanaethau endosgopi yn cael eu blaenoriaethu yn y cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio? Beth yw'r amserlenni a'r targedau ar gyfer gwella (gan gynnwys cynlluniau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros ar gyfer diagnosteg, yn ogystal â chleifion risg uchel sydd angen triniaethau endosgopig gwyliadwriaeth barhaus (cynllunio galw a chapasiti).